




Gwarchod y Fursen Gynffonlas Brin *Ischnura pumilio* yn Sir Gaerfyrddin

## Y Dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig


Mae Ffigur 1 yn dangos dosbarthiad *I.pumilio* yn y Deyrnas Unedig. Mae'r mursennod i'w cael ar safleoedd gwasgaredig ar draws de Prydain ac Iwerddon. Yn Ne-orllewin Cymru, yn Nyfnaint ac yng Nghernyw, ac yn y Fforest Newydd y mae'r trwch mwyaf o safleoedd y rhywogaeth.

Ffigur 1 – Y Dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig (Cham 2004)



Mae maint y cytrefi'n amrywio'n fawr. Yn ôl yr hyn y sylwid arno'n achlysurol mae nifer y mursennod llawn dwf yn amrywio o un neu ddwy i gynifer â 100. Mae Taverner (2004) yn cyfeirio at gyfrif o 70, gan ddweud bod hwn yn nifer mawr iawn i Hampshire. Mae Cham (1993) yn cofnodi cyfrif achlysurol sy'n cyfateb i gyfrif 'marcio ac ail-ddal' o 40 ar yr un diwrnod gyda chyfanswm o 628 o unigolion yn y tymor cyfan. Mae'r cytrefi'n gymharol fyrhoedlog hefyd; yn wir roedd Lucas (1900) o'r farn fod y rhywogaeth wedi diflannu o Brydain gan nad oedd cofnodion ohoni o gwbl am sawl blwyddyn (er ei fod yn cydnabod bod anawsterau adnabod, a maint bach y cytrefi, wedi golygu mwy na thebyg na sylwid ar y rhywogaeth a'i bod felly'n 'dal yn bodoli'.

Mae natur dros dro y cytrefi'n golygu ei bod yn anodd amcangyfrif poblogaeth y rhywogaeth yn y Deyrnas Unedig. Er yr ymddengys o'r map dosbarthiad ar gyfer y Deyrnas Unedig fod Dyfnaint yn gadarnle i'r rhywogaeth, mae Smallshire (1995) yn nodi mai mewn 6 safle yn unig yr ydoedd ar yr adeg honno. Mae'n ddigon posibl mae'r math hwn o fursen sydd â'r boblogaeth leiaf yn y Deyrnas Unedig o'r holl rywogaethau preswyl hirdymor o Odonata.



Ffigur 2 – Y dosbarthiad yn Sir Gaerfyrddin

## Y dosbarthiad yn Sir Gaerfyrddin

Mae Ffigur 2 yn dangos hyd a lled cofnodion Sir Gaerfyrddin. Nid oes asesiad dosbarthiadol o'r rhywogaeth wedi cael ei gynnal yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r wybodaeth bresennol am y dosbarthiad yn deillio o arsylwi achlysurol mewn arolygon odonata cyffredinol.

Mae'r rhywogaeth wedi'i chofnodi yn y rhan fwyaf o Sir Gaerfyrddin. Gellir ystyried bod y rhywogaeth yno'n eang felly. Mae hyd yn oed yn gyffredin ar rai safleoedd ar adegau. Er hynny, nid hon yw'r sefyllfa wirioneddol o bell ffordd.

Mae'r trychfilyn hwn yn gallu manteisio ar gynefinoedd sy'n digwydd yn helaeth (ond am ychydig o flynyddoedd yn unig cyn bod y drefn naturiol yn eu gwneud yn anaddas) a hefyd ymddengys bod y rhywogaeth yn wasgarol iawn. Mae'n fwy tebygol fod nifer bach o gytrefi parhaol yng Ngorllewin Cymru sy'n gwasgaru dros Sir Gaerfyrddin i fanteisio ar gynefin addas a ddaw yn sgil creu pyllau newydd.

Yn Sir Gaerfyrddin mae *I.pumilio* yn defnyddio dau fath o gynefin

1. Pyllau sydd newydd gael eu creu a
2. llaciau/nentydd araf/araf iawn eu llif ac iddynt is-haenau organig meddal nad oes iddynt ddim neu fawr ddim llystyfiant dan y dŵr.

Dŵr bas heb fawr ddim llystyfiant yw'r elfen sy'n gyffredin i'r ddau gynefin hyn. Gall gynhesu'n sydyn yn yr haf (mae llawer o'r llaciau a ddeillia o ffynhonnau yn rhai na fydd o bosibl yn rhewi ym mhob gaeaf heblaw am y gaeafau oeraf oll). Cwblheir cylch oes *I.pumilio* cyn pen blwyddyn ac mae tystiolaeth fod larfâu'n datblygu yn ystod y gaeaf, sy'n hollbwysig i gwblhau'r cylch oes yn llwyddiannus (Cham 1995). Anaml y rhennir y cyfryw gynefinoedd ag odonata eraill (a chreaduriaid di-asgrwn-cefn eraill) ac efallai fod y diffyg cystadleuaeth hwn hefyd yn elfen sy'n denu'r rhywogaeth.

## Pyllau

Mae'r pyllau lle mae'r rhywogaeth wedi'i chofnodi'n amrywio'n fawr. Ar un safle, o'r ddau bwl a oedd yn gynefin i'r math hwn o fursen, roedd un yn bwl gardd ac iddo leinin concriid ac roedd yn 3 metr wrth 5 metr ac iddo ddyfnder rhwng 300mm a 600mm; roedd y pwll arall yn 10 metr wrth 10 metr ac iddo ddyfnder rhwng 150mm a 1000mm a leinin clai. Roedd y math hwn o fursen i'w gael yn y pwll cyntaf oddi ar ei greu ym 1984 tan tua 1992, tra bo'r ail bwl yn gynefin i'r rhywogaeth oddi ar greu'r pwll ym 1992 tan 1997. Yn Sir Gaerfyrddin mae llawer o gronfeydd dŵr ffermydd, yn y blynyddoedd cyntaf ar ôl eu creu, yn gynefinoedd sy'n denu *I.pumilio*. Yn anffodus, mewn dim o dro, bydd llystyfiant yn datblygu yn y cronfeydd a daw odonata a chreaduriaid di-asgrwn-cefn eraill iddynt gan olygu eu bod yn anaddas mwyach.

## Nentydd a llaciau ('flushes')

Unwaith eto, gall y cynefinoedd hyn fod yn weddol amrywiol, ond mae i bob un ohonynt lif araf iawn o ddŵr ac is-haenau meddal, dwfn gyda manau lle nad oes dim neu fawr ddim llystyfiant. Yn aml dim ond darnau byr sy'n addas, gyda ffactorau lleol yn ffurfio sianeli llydan gydag oddeutu 150mm o ddŵr dwfn ar dir heb fawr ddim rhediad gyda'r dŵr yn llifo mor araf braidd y gellir ei weld yn symud.

## Safleoedd *Ischnura pumilio*

Ar fap dosbarthiad Sir Gaerfyrddin ni cheir dim sgwariau lle mae'r rhywogaeth hon wedi'i chofnodi'n barhaus dros ddeng mlynedd ar hugain, ond mae ambell un mewn rhannau eraill o Orllewin Cymru. Mae'r 'Safleoedd Parhaol' hyn yn Sir Benfro i'w cael ar lethrau isaf y Preseli, ar nentydd sy'n system ddraenio naturiol a gaiff ei haddasu wrth i anifeiliaid symud a phori. Mewn manau cyfyng a fydd yn sianelu ac yn canoli'r llwybrau lle bydd anifeiliaid yn croesi nentydd, y mae'r tir agored a meddal y mae ar *I.pumilio* ei angen yn cael ei gynnal.

Mae'r rhan fwyaf o safleoedd Sir Gaerfyrddin yn byllau lle mae *I.pumilio* wedi ymsefydlu cytrefi dros dro ('Safleoedd Dros Dro'). Mae'r rhain mwy na thebyg yn galluogi *I.pumilio* i gynnal poblogaeth grwydrol ond mae'n ddibynnol ar argaeledd parhaus pyllau newydd. Mae rhai o'r safleoedd hyn isod.



## Cadwraeth

### Creu 'Safleoedd Parhaol'

O gofio pa mor rhwydd yw creu safleoedd o'r fath, byddai'n gwbl ddichonadwy datblygu rhwydwaith o safleoedd o'r fath ar draws y sir. Yn Atodiad 1 ceir disgrifiad o ofynion safleoedd o'r fath. Heb y tarfu a ddaw yn sgil symud anifeiliaid, bydd y safleoedd hyn yn prysur ddatblygu drwy gamau cynnar y drefn naturiol sy'n ddelfrydol ar gyfer y rhywogaeth. Mae sicrhau bod yr anifeiliaid priodol ar gael dros gyfnod di-dor yn faen prawf pwysig felly wrth ddewis safle ac efallai hefyd ei fod yn ffactor sy'n cyfyngu'r dewis wrth fynd ati i greu 'Safle Parhaol'. O ganlyniad mae'n rhaid i gynlluniau a chyllid i ddatblygu 'Safleoedd Parhaol' ddarparu stoc briodol a mesurau rheoli stoc (ffensys, gatiâu ychwanegol ac ati).



## Atodiad 1 – Creu llac *Ischnura pumilio*

Rhaid i safle addas fod â nant fach barhaol, nad yw wedi'i llygru, bod yn gymharol wastad a bod yn safle lle mae stoc yn pori. Dylai gwely'r nant fod yn ddigon llydan i ganiatáu i'r rhan fwyaf o ddŵr lifo'n araf iawn ar hyd-ddo; braidd y dylid gweld y llif pan fydd tywydd arferol, sych. Dylai glannau'r nant fod yn isel iawn er mwyn i'r dŵr orlifo'n gyflym os bydd llifogydd. Dylai fod digon o fannau gwastad o bob tu i'r nant i ganiatáu llif o'r fath. Dylai dyfnder y dŵr uwchlaw gwaelod meddal gael ei gadw rhwng 100mm a 300mm drwy gyfyngu'r llif yn is ar y nant na'r safle dan sylw. Rhaid i'r safle fod yn isafswm o 5 metr ar ei hyd ond gall fod cyhyd ag sy'n ymarferol. Rhwng caeau pori fyddai'r safle delfrydol. Rhaid i ryw faint o symud anifeiliaid ddigwydd ar hyd y nant, gan fod yn ddigon i gyfyngu ar ddatblygiad llystyfiant sydd dan yr wyneb er mwyn i rannau helaeth o wely'r nant fod yn weladwy.



Mae Ffigur 3 yn dangos sut olwg fyddai ar safle o'r fath. Mae'r ffaith fod y manau pori o amgylch y safle yn gorfodi'r anifeiliaid i groesi'r dŵr i symud rhyngddynt. Mae'r symud hwn yn ddigon i gynnal yr amodau angenrheidiol. Nid yw'r rhannau lle ceir dŵr clir yn cynnal llystyfiant dan yr wyneb. Mae'r olyfa hon yn is ar y nant. Mae sianel gyfyngedig ar derfyn y nant y tu hwnt i'r caeau pori.



Mae Ffigur 4 yn dangos safle llai a luniwyd ar draws rhediad y tir. Yma mae'r geg (a welir yn y tu blaen) wedi'i chyfyngu'n naturiol ac wedi'i thagu gan llystyfiant. Unwaith eto nid yw'r dŵr clir yn cynnal llystyfiant dan yr wyneb. Er mai rhyw 150mm yw dyfnder y dŵr clir, 300mm yw'r dyfnder hyd at dir cadarn.

Nid oes angen cyfyngu datblygiad safle i un pwll yn unig gan y gellid creu cyfres o byllau. Gellid defnyddio ffensys a gatiâu i greu llwybrau eraill i anifeiliaid a gellid eu defnyddio i reoli symud anifeiliaid er mwyn cynnal yr amodau gorau posibl.

Fel y dengys y ddau ffigur, mae'n ddigon posibl y gallai llystyfiant sy'n datblygu ar hyd ymyl y nant, a chysgod yr eithin sydd o amgylch y safle, ei gwneud yn fwy o atynfa i *I.pumilio*.

Byddai hefyd yn bosibl creu pyllau, gan ddefnyddio tarfu (gan anifeiliaid neu gerbydau?) i gynnal yr amodau cywir, a allai fod yr un mor atyniadol i *I.pumilio*.

### Llyfryddiaeth

Cham (1993): Steve Cham – Further observation on generation time and maturation of *Ischnura pumilio* with notes on a mark-recapture programme. *Journal of the British Dragonfly Society* 9:40-46

Cham (1995): Steve Cham – The Scarce Blue-tailed Damselfly – the conservation of a wandering opportunist. *British Wildlife* 7:220-225

Cham (2004): Steve Cham – *Dragonflies of Bedfordshire*.

Lucas (1900): Lucas, W.J. – *British Dragonflies*.

Smallshire (1995): Smallshire, D – *An Inventory of the key dragonfly sites in Devon*.

Taverner (2004): John Taverner, Steve Cham and Alan Hold – *The Dragonflies of Hampshire*.